

11.01.2023

Annwyl Riant/Warcheidwad

Un voyage à Paris – Mawrth 31^{ain} i Ebrill 3^{ydd} 2023

Mae hyn i'ch hysbysu y byddwn yn cael cyfarfodydd rheolaidd (ar gyfer eich plentyn) am yr ymweliad â Pharis cyn bo hir. Er mwyn i chi gael gwybod popeth sy'n cael ei drafod, byddwn yn ddiolchgar petaech yn gwirio'ch cyfrif [School Gateway](#) yn rheolaidd a hefyd yn atgoffa'ch plentyn i wirio Microsoft Teams Paris fel y gallaf gysylltu â chi'n haws ynghylch taliadau, terfynau amser a manylion yr ymweliad. Gofynnwch i'ch plentyn ddod â'r [ffurflen Caniatâd Rhiant](#) i mewn erbyn dydd Gwener, Ionawr 27^{ain} neu ei dychwelyd yn uniongyrchol ataf trwy e-bost; fy nghyfeiriad e-bost yw nia.williams@aberconwy.conwy.sch.uk. NID oes angen llenwi'r adran Gallu i Nofio ar y ffurflen gan na fyddwn yn mynd i nofio.

A gaf eich atgoffa i gadw i fyny â'r taliadau yn unol â'r amserlen isod. Mae'r pris o £360 yn cynnwys:

- Llety
- Prydau bwyd
- Teithio ac yswiriant teithio
- Pob gwibdaith (Disneyland, Tŵr Eiffel, cwch ar y Seine, Champs Elysées)
- Bydd angen i'ch plentyn ddod â'u pasbort eu hunain. (Sicrhewch fod hwn yn ddilys am o leiaf 3 mis ar ôl y diwrnod rydym yn bwriadu gadael.)

Er mwyn i'ch plentyn gael yswiriant meddygol llawn a mynediad i ofal iechyd a ddarperir gan y wladwriaeth ar gyfer pethau fel triniaeth frys ac ymweliadau ag adrannau damweiniau ac achosion brys, rydym yn argymhell eich bod yn gwneud cais am gerdyn GHIC sy'n fersiwn newydd o'r hen gerdyn EHIC. Gallwch wneud cais am y cerdyn hwn yn hawdd trwy ddefnyddio'r ddolen ganlynol: <https://services.nhsbsa.nhs.uk/cra/start>. Gwnewch yn siŵr eich bod yn defnyddio'r ddolen hon i wefan y Llywodraeth gan fod y cerdyn yn rhad ac am ddim, ond efallai y bydd gwefannau eraill yn ceisio eich annog i dalu am y cerdyn. NID yw hyn yn angenrheidiol. Gofynnir i chi am rif Yswiriant Gwladol, felly os yw eich plentyn o dan 16 oed, dylech wneud cais am y cerdyn eich hun ac ychwanegu unrhyw blentyn/plant yr hoffech wneud cais ar eu cyfer.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â mi gan ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost uchod.

Yn gywir iawn,

Miss Nia Williams (Trefnydd yr Ymweliad)

Amserlen Talu

Cyfanswm £360

Swm	Talwyd	Yn Weddill
Blaendal, Gorff 7fed	£85	£275
Dydd Gwener, Medi 30ain	£60	£215
Dydd Gwener, Tach 18fed	£70	£145
Dydd Gwener, Rhag 16eg	£70	£75
Dydd Gwener, Ion 16eg	£75	TALWYD YN LLAWN